Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Alphabet
# Ysgol Gynradd Gwndy
# Lôn Pennyfarthing
# Gwndy
# Sir Fynwy
# NP26 3LZ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Alphabet

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Alphabet |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Louisa Sutton a Tracey Millard |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Louisa Sutton a Tracey Millard |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2½ - 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 19 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, dydd Mercher a dydd Iau, rhwng 8.30am a 3.00pm, a dydd Mawrth a dydd Gwener, rhwng 8.30am a 12.30pm. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg.<br>Rydym yn argymell y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried 'Mwy na Geiriau: Fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal cymdeithasol' Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 05/03/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 12/11/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/11/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae bron pob un o'r plant o gartrefi Saesneg.  Mae ychydig iawn ohonynt o leiafrifoedd ethnig. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Dd/b** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

***Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.***

## Argymhellion

A1 Gwella'r amgylchedd dysgu i sicrhau ei fod yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd

A2 Adolygu'r trefniadau ar gyfer arferion mynd i'r toiled a newid cewynnau yn y lleoliad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn ac AGC yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn chwarae'n hapus gan wybod y bydd pobl yn gwrando arnynt ac y bydd ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda iawn i'w safbwyntiau a'u dewisiadau wrth chwarae. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â ble i chwarae o blith ystod eang y profiadau dysgu. Er enghraifft, mae plant yn symud rhwng y tu mewn a'r tu allan yn hyderus gan chwarae â threiciau, blociau adeiladu mawr a chwarae dŵr yn yr ardal awyr agored a gyda'r bwrdd golau yn y gornel gartref y tu mewn. Mae bron pob un o'r plant yn dewis pryd i gael seibiant o chwarae i gael eu byrbryd, ac wedyn yn mynd yn ôl at eu dewisiadau chwarae yn eu hamser eu hunain. Maent yn cyfrannu'n helaeth at werthusiadau parhaus o weithgareddau ac adnoddau.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus yn y lleoliad, ac wedi ymgynefino yno. Dangosant lefelau uchel o ymddiriedaeth a hyder gydag ymarferwyr ac maent yn ffurfio cyswllt agos â gweithwyr allweddol. Mae bron pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, yn cael tawelwch meddwl ac wedi ymgynefino yn y lleoliad. Dangosant frwdfrydedd a balchder yn eu gwaith sy'n cael ei arddangos yn amlwg. Mae bron pob un ohonynt yn hamddenol a bodlon iawn. Cryfder nodedig yw'r ffordd y bydd bron pob un o'r plant yn meithrin cyfeillgarwch llwyddiannus. Mae gan bron bob un o'r plant ddealltwriaeth ragorol o wahanol ddiwylliannau ac arferion, er enghraifft trwy wahodd rhieni i'r lleoliad i siarad am wisgoedd, bwydydd ac arferion diwylliannol.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau cymdeithasol da yn unol â'u cyfnod datblygu. Maent yn dangos parch, yn ffurfio cyfeillgarwch gyda phlant eraill, ac yn dysgu rhannu a chydweithio'n llwyddiannus iawn. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd dawns, mae plant yn chwilio'n frwd am ffrindiau i ddal dwylo â nhw a dawnsio â nhw, ac yn patio cefn eu ffrindiau yn ysgafn, gan ddangos gofal a phryder. Mae bron pob un o'r plant yn dechrau deall rheolau ac arferion y sesiwn yn llwyddiannus, ac yn atgoffa eu ffrindiau yn gwrtais am reolau syml fel peidio â gweiddi allan yn ystod gweithgaredd chwarae. Mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn bwrpasol i geisiadau ymarferwyr i dacluso teganau o'r neilltu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n hapus ac ar y cyd, gan ddangos ymwybyddiaeth gref o arferion ac ymddygiad yn eu lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos mwynhad amlwg wrth iddynt chwarae, ac maent yn elwa ar y cyfleoedd chwarae a'r profiadau uniongyrchol hynod effeithiol a niferus. Maent yn ymgymryd â gweithgareddau yn gyflym iawn ac yn cynnal diddordeb am gyfnodau hir. Mae bron pob un o'r plant yn dangos medrau cymdeithasol effeithiol wrth chwarae â'u cyfoedion, er enghraifft wrth chwarae rôl yn yr ardal gartref a chwarae â theganau cerddorol.

Mae bron pob un o'r plant yn eithriadol o hyderus ac yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda iawn. Er enghraifft, mae plant yn hunangofrestru pan fyddant yn cyrraedd, ac ar gyfer eu byrbryd yn y caffi, trwy ddewis eu henw'n hyderus a chyflwyno'r label i staff. Mae bron pob un o'r plant yn deall gweithdrefnau hylendid da yn dda iawn, yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn gwisgo eu hunain yn annibynnol ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): dd/b**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau da, ac maent yn darparu profiad eithriadol o ofalgar a meithringar ar gyfer y plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddiogelu ac yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus iawn. Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth gref o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn rhagweld eu hanghenion i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn eu cadw'n ddiogel yn hynod effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymarfer gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng gyda phob un o'r plant yn rheolaidd, yn hyrwyddo hylendid da ac yn cadw cofnodion am ddamweiniau, digwyddiadau ac yn gweinyddu meddyginiaeth yn briodol. Mae ymarferwyr yn darparu cymorth rhagorol i blant i godi ymwybyddiaeth am fwyta'n iach ac wedi'u hydradu, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o anghenion deietegol plant unigol. Mae systemau hynod effeithiol yn hybu teimladau plant o ran sicrwydd a lles emosiynol yn helaeth, trwy systemau sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rhagorol i blant ddysgu am bwysigrwydd ffitrwydd ac effaith gadarnhaol ymarfer corff ar eu cyrff. Enghraifft effeithiol o hyn yw pan ofynnwyd i blant ystyried pa mor gyflym yr oedd eu calonnau'n curo neu pa mor gyflym roeddent yn anadlu wrth orffwys ac ymlacio, o'i gyferbynnu â phan oeddent yn neidio ac yn rhedeg o gwmpas yn llawn cyffro.

Mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio â phlant i safon uchel iawn ac yn mabwysiadu dull hynod gadarnhaol o annog dysgu plant a rhyngweithio cymdeithasol â'u cyfoedion. Maent yn defnyddio adborth cadarnhaol, yn canmol ac yn amrywio strategaethau yn dda iawn i gynorthwyo plant i fabwysiadu ymddygiad da. Mae ymarferwyr yn glir a chyson iawn wrth atgoffa plant am reolau diogelwch. Mae ymarferwyr yn meithrin hunan-barch yn fedrus trwy ddefnyddio rhyngweithio o ansawdd uchel gyda phlant. Mae ymarferwyr yn atal unrhyw ymddygiad digroeso yn

gyflym ac yn effeithiol.  Ceir awyrgylch digynnwrf a threfnus ar draws yr holl ardaloedd chwarae, sy'n galluogi'r plant i fwynhau eu gweithgareddau chwarae a'u cyfleoedd dysgu ym mhob sesiwn.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda iawn o sut i hyrwyddo datblygiad plant yn effeithiol.  Caiff y system gweithwyr allweddol ei rhoi ar waith yn dda iawn gydag ymarferwyr, gan feithrin dealltwriaeth gref o'r plant yn eu gofal.  Maent yn cynnal arsylwadau rheolaidd o blant a gwerthusiadau o weithgareddau, i nodi a hyrwyddo datblygiad plant yn effeithiol.  Mae staff yn darparu lefelau uchel o gymorth ym mhob maes ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn addasu gweithgareddau yn unol ag anghenion unigol pob plentyn i gefnogi a gwella eu dysgu yn hynod briodol.  Maent yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o amrywiaethau diwylliannol a chynaliadwyedd trwy weithgareddau ac adnoddau priodol sydd ar gael i blant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o brofiadau dysgu ar gyfer plant, sy'n sbarduno a symbylu eu diddordebau yn eithriadol o dda.  Er enghraifft, maent yn cynllunio i blant fentro'n bwyllog wrth adeiladu pontydd fel rhan o'u chwarae a chyfleoedd i greu tai a mynyddoedd dail a dysgu am ddeinosoriaid.  Mae ymarferwyr yn defnyddio eu gwybodaeth gref am alluoedd presennol plant i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf wrth ddatblygu eu medrau.  Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o leiaf o'u mannau cychwyn.  Mae ymarferwyr yn defnyddio fframwaith y cyfnod sylfaen ac yn ystyried pedwar diben y cwricwlwm newydd yn ofalus wrth gynllunio gweithgareddau cyffrous ac ysgogol ar gyfer plant.

Mae ymarferwyr yn cynnwys plant mewn cynllunio'r cwricwlwm yn hynod effeithiol, ac yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i ddatblygu medrau'n raddol, fel defnyddio arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer plant.  Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth helaeth o arfer dda yn y cyfnod sylfaen, ac maent yn darparu cyfleoedd diddorol i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol.  Mae ardaloedd dysgu o ansawdd uchel, wedi'u cynllunio'n ystyriol, yn annog plant i ddewis yn rhydd yn ystod eu chwarae dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant gael mynediad at yr ardaloedd hyn yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio holi ac yn herio syniadau plant i safon uchel iawn, gan ymestyn dysgu plant a hyrwyddo eu meddwl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwerthfawr.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant hoelio coed pren yn bwmpenni, ac wedi iddynt feistroli hyn, i drin deunyddiau caletach fel melon dŵr a phren.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd eithriadol o dda i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn benodol, mae ymarferwyr yn fedrus wrth nodi cyfleoedd achlysurol i wella dealltwriaeth a geirfa ehangach plant. Er enghraifft, wrth fwyta darnau o afal, mae ymarferwyr yn gofyn i'r plant ddisgrifio'r sŵn mae'n ei wneud a sut mae'n teimlo. Mae ymarferwyr yn annog plant yn frwdfrydig i ddatblygu eu medrau TGCh trwy chwarae annibynnol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r bwrdd golau i archwilio lliw a gwead a'r cyfrifiadur llechen i dynnu lluniau o'u creadigaethau.

Mae ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu diddordeb am lyfrau trwy ddarllen iddynt yn rheolaidd gyda brwdfrydedd a diddordeb. Maent yn galluogi plant i ddatblygu eu hoffterau darllen yn fuddiol trwy eu galluogi i gael pleidlais unigol ar ba stori yr hoffent ei chlywed nesaf. Trwy gydol sesiynau, mae ymarferwyr yn cofnodi hoffterau plant yn gyflym. Mae hyn yn sicrhau y gwrandewir ar blant yn hynod effeithiol. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn dda fel rhan o'r drefn ddyddiol ac yn ystod gweithgareddau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar allu plant i ddeall a defnyddio'r iaith yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Caiff plant gyfleoedd buddiol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Er enghraifft, maent yn defnyddio pypedau i ddathlu stori Santes Dwynwen ac yn gwisgo gwisg draddodiadol wrth berfformio yn yr ysgol gynradd.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod arloesol o brofiadau dysgu i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn helaeth. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn datblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod ymhlith plant pan fyddant yn gwylio adar yn bwyta o'r offer bwydo adar a wnaed gan y plant, a thrwy eu hannog i ddefnyddio eu dychymyg pan fyddant yn gwneud darganfyddiadau yn ardal y goedwig. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd eithriadol o dda i blant brofi ystod eang o weithgareddau fel dawns i hyrwyddo eu lles a byw yn iach mewn ffordd hynod ddychmygus.

Mae ymarferwyr yn asesu ac yn arsylwi'r plant yn eithriadol o dda. Gwnânt ddefnydd rhagorol o'r wybodaeth i lywio'r camau nesaf mewn dysgu i ffurfio tasgau yn y dyfodol. Er enghraifft, maent yn cymryd nodiadau o'r medrau penodol y mae plant yn eu dangos yn ystod gweithgareddau ac yn defnyddio'r rhain i weithio gyda rhieni i lywio eu cynllunio, fel datblygu'r defnydd o eirfa ddiddorol. Maent yn defnyddio'r systemau electronig yn dda i gofnodi medrau plant ac yn rhannu'r wybodaeth hon yn effeithiol gyda rhieni trwy negeseuon e-bost wythnosol, cylchlythyrau a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r adeilad yn uned dros dro, sy'n cael ei chynnal yn dda iawn, ac yn ddiogel. Mae arweinwyr yn rheoli mynediad i'r safle yn dda. Maent yn sicrhau bod gwiriadau gweledol dyddiol yn cael eu cwblhau ac yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd. Mae'r safle a'r offer yn lân ac mae ymarferwyr yn dilyn canllawiau rheoli heintiau yn dda. Mae defnydd ymarferwyr o staff yn ymatebol iawn i anghenion plant er mwyn cynorthwyo plant a'u cadw'n ddiogel ym mhob ardal o gwmpas y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn eang, yn ddiogel ac yn feithringar gydag ardal chwarae ddiogel ysgogol yn yr awyr agored, a mynediad dan oruchwyliaeth at gaeau chwarae'r ysgol a'r ardal goedwig. Mae'r holl ardaloedd chwarae wedi eu gosod yn greadigol i ddarparu gofod cyfoethog ac ysgogol iawn i blant chwarae a dysgu'n ddiogel. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant yn gadarnhaol i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd hynod effeithiol o adnoddau dychmygus fel bwrdd golau, ardal lyfrau gyda llyfrau Cymraeg a Saesneg, ardal creu marciau ac ardal chwarae rôl gydag adnoddau go iawn i ddatblygu medrau plant yn raddol. Ceir adnoddau rhagorol ar gyfer yr holl blant, gan gynnwys mynediad hawdd at doiledau yn uniongyrchol o'r ystafell sylfaen, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r trefniadau presennol sydd ar waith i staff ddefnyddio'r toiledau hyn, nid ydynt ar gael i blant yn ystod y sesiwn am gyfnod byr iawn o bryd i'w gilydd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn elwa ar fynediad llif rhydd uniongyrchol i'r gofod chwarae yn yr awyr agored. Maent yn darparu cyfleoedd hynod fuddiol i blant elwa ar ystod eang o adnoddau a gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan fel ei gilydd. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth plant a'u gallu i wneud dewisiadau i safon uchel iawn. Mae'r holl feysydd dysgu yn cynnwys adnoddau naturiol ac artiffisial diddorol ac ysgogol ac mae plant yn mynd ag adnoddau o un ardal i gefnogi eu chwarae mewn ardal arall. Mae'r amgylchedd dysgu yn hynod ddychmygus, yn weledol ysgogol gydag ystod werth chweil o adnoddau synhwyraidd wedi eu creu o bren, brigau, concyrs a cherrig mân. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn sicrhau bod pob ardal yn cynnwys digon o symbyliadau gweledol yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd ar gyfer y plant wrth iddynt chwarae.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod helaeth o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd uchel, sy'n ddatblygiadol briodol ar gyfer pob oedran sy'n cynnig heriau, risgiau a chyfleoedd addas i blant arbrofi. Mae gan y lleoliad amrywiaeth o ddodrefn ac adnoddau lefel isel, y mae ymarferwyr yn eu defnyddio'n effeithiol i wella dysgu plant. Mae adnoddau hynod ddychmygus, fel gwisgoedd, doliau a llyfrau, yn datblygu eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill yn eithriadol o dda.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn darparu cyfeiriad hynod effeithiol i waith y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn hynod angerddol a brwdfrydig ynglŷn â'u gwaith ac maent yn cydweithio i hyrwyddo gwelliannau mewn darpariaeth ac yn neilliannau plant mewn amgylchedd meithringar a gofalgar.

Mae ymarferwyr yn nodi cryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella yn hynod effeithiol. Defnyddiant system hunanadolygu a myfyrio drylwyr i sicrhau gwelliannau yn safonau dysgu plant, a'r ddarpariaeth. Mae ymarferwyr yn monitro cynnydd â'u cynllun gwella yn rheolaidd, gan ddarparu cyfle gwerthfawr i werthuso cryfderau'r lleoliad a nodi meysydd pellach i'w datblygu. Er enghraifft, o arsylwadau anffurfiol a myfyrio, nododd ymarferwyr fod angen mwy o gyfleoedd ar blant i ddatblygu eu dawn

greadigol.  O ganlyniad, fe wnaethant wella adnoddau a chynllunio mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau creadigol plant, fel gwaith coed.  Fe wnaethant werthuso'r ddarpariaeth yn rheolaidd i sicrhau gwelliant ym medrau plant.

Mae prosesau recriwtio diogel a thrylwyr ar waith.  Mae ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau addas ac mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu elwa ar ystod eang o adnoddau cyffrous a dychmygus sy'n cefnogi eu dysgu'n effeithiol iawn, gan gynnwys ardal goedwig laswelltog, ac ardal hygyrch yn yr awyr agored.

Mae arweinwyr yn cynnal gwerthusiadau staff rheolaidd sy'n nodi amcanion gwella ac anghenion hyfforddi clir.  Maent yn darparu cyfleoedd rhagorol i ymarferwyr fynychu hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau proffesiynol yn effeithiol, fel datblygu medrau siarad Cymraeg gyda'r plant.  Mae pob un o'r ymarferwyr yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac maent yn gweithio'n galed i gyflwyno geirfa ac ymadroddion newydd.  Gwnânt hyn mewn modd brwdfrydig a hamddenol; mae hyn yn annog y plant i roi cynnig ar eiriau newydd.  Maent yn goruchwylio'n effeithiol iawn ac mae arweinwyr wedi cyflwyno cyfarfodydd lles rhagorol gydag ymarferwyr i sicrhau bod staff yn gweithio ar y cyd ac yn gadarnhaol.  Caiff ymarferwyr gyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr i drafod teimladau, dyheadau a pherthnasoedd proffesiynol mewn modd cyfrinachol a hamddenol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn effeithiol.  Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi prynu blociau mawr ychwanegol a phanel goleuadau yn ddiweddar, i ddarparu ystod ehangach o gyfleoedd i blant ymarfer a datblygu eu medrau.  Maent yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod cyfrifon yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.  Mae hyn yn sicrhau bod plant yn elwa ar ddarpariaeth ag adnoddau eithriadol o dda, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau plant.  Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau sydd ar gael yn hynod effeithiol i gefnogi medrau plant, er enghraifft prynu blociau mawr pren, sy'n hyrwyddo cyd-chwarae.

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau hynod lwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a chynnydd plant.  Er enghraifft, mae partneriaeth gref iawn gyda rhieni yn cefnogi lles plant yn effeithiol.  Croesewir rhieni i'r lleoliad ac fe gânt eu hannog i weithio'n agos gydag ymarferwyr i ddarparu profiadau a deilliannau buddiol ar gyfer y plant.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn trafod sut maent yn rheoli ymddygiad cadarnhaol fel y gall rhieni ddefnyddio strategaethau tebyg gartref.  Mae'r lleoliad yn elwa'n helaeth ar y partneriaethau cynhyrchiol gyda'r gymuned, ac yn enwedig yr ysgol leol lle maent wedi datblygu trefniadau di-dor ar gyfer pontio.  Mae gan y lleoliad bartneriaethau effeithiol gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol ac mae'n defnyddio'r cyngor a'r cymorth a roddir yn dda i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant a rhieni.  Er enghraifft, maent yn ymweld â lleoliadau eraill i gael cyngor a syniadau gwerthfawr mewn meysydd fel gwaith coed a phobi.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  24/01/2020